OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif (Cy.)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019. Maent yn diwygio cyfeiriadau at y diwrnod ymadael fel eu bod yn cyfeirio yn lle hynny at ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith, neu unrhyw

effaith sylweddol, ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif (Cy.)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gofynion sifftio wedi eu bodloni	***
Gwnaed	***
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	***
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)	

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**2**) (sy'n ymwneud â'r gofyniad i ymgynghori mewn amgylchiadau penodol) a pharagraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu

(**1**) 2018 p. 16. *Gweler* adran 20(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "devolved authority".

briodol Senedd Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Diwygio Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

2.—(1) Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(11)(a)(ii), yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

(3) Yn rheoliad 6(16)(a), yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

3.—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(2)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "y diwrnod ymadael", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

(3) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "y diwrnod ymadael", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "diwrnod cwblhau'r

(**1**) O.S. 2019/245 (Cy. 60).
(**2**) O.S. 2019/456 (Cy. 109).

cyfnod gweithredu”.

Enw
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad